Rhaid - *Must/has to*

Thema - *Themes*

Rhaid - *Must/has to*

Patrymau laith - *Language patterns*

(Mae) Rhaid i fi – *I must/ I have to*

Ar lafar yn aml dyn ni ddim yn defnyddio 'Mae'.
'Mae' is often omitted in speech.

Mae treiglad meddal ar ôl pob person.
There is a soft mutation after each person.

Rhaid i fi **fynd**	*I must go*
Rhaid i ti	*You must*
Rhaid iddo fe	*He must*
Rhaid iddi hi	*She must eat*
Rhaid i Ann/ i'r plant	*Ann / the children must*
Rhaid i ni	*We must*
Rhaid i chi	*You must*
Rhaid iddyn nhw	*They must*

Esiamplau ychwanegol - *Extra examples*

Cwestiwn - *Question* 'Oes...?'

Oes rhaid i fi ... ?	*Must I? Do I have to?*
Oes rhaid i ti fynd â dy fam...*?*	*Do you have to take your mother...?*

Negyddol - *Negative*

Does dim rhaid i fi	*I don't have to*
Does dim rhaid i ti boeni	*You don't have to worry.*

'Bydd' *' will be'*
Mae'n bosib rhoi 'bydd' yn lle 'mae'
'Mae' can be replaced by 'bydd'

Mae rhaid i ni aros	*We have to wait*
Bydd rhaid i ni aros	*We will have to wait*

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain 1 / *Audio task 1*
Newidiwch y ffaith sy DDIM yn gywir yn y frawddeg
Change the fact that is NOT correct in the sentence.

1. Rhaid i Steffan gasglu'r plant yfory.
2. Rhaid i Steffan a Rich chwarae tenis.
3. Rhaid i Mam Marged gael tabledi.
4. Rhaid i Marged weithio ar shifft nos.
5. Rhaid iddyn nhw fynd at y doctor am chwech o'r gloch.
6. Rhaid i Marged fynd â'r plant i dŷ Rich a Sharon.
7. Rhaid i Steffan golli ei ffordd bob tro.

Tasg sain 2 / *Audio task 2*
Llenwch y bylchau
Fill in the gaps

1) Rhaid i James a Sara _____ pwysau.

2) Rhaid i James _____ llai.

3) Rhaid iddo fe _____'r dafarn leol.

4) Rhaid i Arwyn _____ ffrind arall.

5) Rhaid i James _____ i'r *gym*.

6) Rhaid iddyn nhw _____ salad.

7) Rhaid iddo fe gael _____ â'r bola.

Sgript Sain 1 – *Audio Script 1*

Marged: Rhaid i ti gasglu'r plant o'r ysgol heddiw. Cofio?

Steffan: Heddiw? O na! Mae heddiw'n amhosib Marged!

Marged: Steffan!

Steffan: Ond Marged, rhaid i fi chwarae gêm golff gyda Rich am bedwar. Mae hi'n gêm bwysig iawn!

Marged: Rhaid i fi fynd â Mam at y doctor heddiw. Rhaid iddi hi gael ei phigiad Tetanus. Rhaid i ti a Rich chwarae yfory.

Steffan: Ond rhaid i ni chwarae'r gêm heddiw, neu fydd hi ddim yn bosib i ni fynd ymlaen i'r rownd nesa.

Marged: Wel, caws caled!

Steffan: Oes rhaid i **ti** fynd â dy fam? Beth am dy chwaer?

Marged: Rhaid iddi hi weithio heno – mae hi ar shifft nos!

Steffan: Rhaid i fi ffonio Rich.

Marged: Diolch i ti, cariad

Steffan: Dyna ni – popeth yn iawn! Dw i'n mynd i gasglu'r plant o'r ysgol a dw i'n mynd a nhw i dŷ Rich a Sharon.

Marged: Ond mae apwyntiad Mam am bedwar – efallai bydd rhaid i ni aros i weld y doctor.

Steffan: Paid â phoeni dim. Mae Sharon yn mynd i wneud te i'r plant. Does dim rhaid i ti boeni.

Marged: O! Steffan! Rhaid i ti gael dy ffordd bob tro! Golff, golff a mwy o golff.

Steffan: Hwyl cariad! Rhaid i fi fynd i'r gwaith! Cofia fi at dy fam!

Geirfa

casglu – *(to) collect*
pwysig - *important*
pigiad – *injection*
caws caled – *tough(cheese)*
dyna ni! - *that's it!*
ffordd – *way*

Sgript Sain - *Audio Script 2*

JAMES: Rhaid i fi golli pwysau.

SARA: Rhaid i fi golli pwysau hefyd.

JAMES: Does dim rhaid i ti golli pwysau. Does dim bola cwrw gyda ti. Mae bola cwrw mawr gyda fi.

SARA: Rhaid i ti yfed llai. Does dim rhaid mynd i'r dafarn mor aml.

JAMES: Ond rhaid i fi gefnogi'r dafarn leol!

SARA: Does dim rhaid cefnogi'r dafarn bob nos!

JAMES: Ond beth am Arwyn. Bydd e'n eistedd wrth y bar ar ei ben ei hun.

SARA: Bydd rhaid i Arwyn ffeindio ffrind arall!

JAMES: Rhaid i fi wneud mwy o ymarfer corff.

SARA: Mae DVD ffitrwydd gyda fi.

JAMES: Dw i ddim yn mynd i neidio lan a lawr mewn *leotard*! Bydd rhaid i fi fynd i'r *gym*.

SARA: A rhaid i ni fwyta'n iach. Mwy o salad.

JAMES: O. Oes rhaid?

SARA: Oes, os wyt ti eisiau cael gwared â'r bola yna.

Geirfa

pwysau – *weight*
bola cwrw – *beer belly*
mor aml – *so often*
cefnogi – *(to) support*
tafarn leol – *local pub*
ymarfer corff – *exercise*
neidio - *(to) jump*
lan a lawr - *up and down*
iach – *healthy*
cael gwared â - *(to) get rid of*

Atebion - *Answers*

Tasg sain 1 / *Audio task 1*

1. Rhaid i Steffan gasglu'r plant heddiw.
2. Rhaid i Steffan a Rich chwarae golff.
3. Rhaid i Mam Marged gael pigiad.
4. Rhaid i chwaer Marged weithio ar shifft nos.
5. Rhaid iddyn nhw fynd at y doctor am bedwar o'r gloch
6. Rhaid i Steffan fynd â'r plant i dŷ Rich a Sharon.
7. Rhaid i Steffan gael ei ffordd bob tro.

Tasg sain 2 / *Audio task 2*

1. Rhaid i James a Sara golli pwysau.
2. Rhaid i James yfed llai.
3. Rhaid iddo fe gefnogi'r dafarn leol.
4. Rhaid i Arwyn ffeindio ffrind arall.
5. Rhaid i James fynd i'r *gym*.
6. Rhaid iddyn nhw fwyta salad.
7. Rhaid iddo fe gael gwared â'r bola.